



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales




Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Ymchwil Iechyd
a Gofal Cymru
Health and Care
Research Wales

Our Priorities 2023-2035



We are Public Health Wales.
We exist to help all people in
Wales live longer, healthier lives.

Our values are **working together**
with **trust and respect** to **make a difference**.



Iechyd Cyhoeddus Cymru Ymchwil a Gwerthuso Adroddiad ar y Prif Uchafbwyntiau 2025– 2026

Manylion cyswllt


Swyddfa Ymchwil a Datblygu
Y Gyfarwyddiaeth Ymchwil, Data a Digidol
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Rhif 2 Capital Quarter
Caerdydd
CF10 4BZ

Anfonwch e-bost at y tîm Ymchwil a Datblygu am wybodaeth am
Ymchwil Iechyd Cyhoeddus Cymru:

PHW.Research@wales.nhs.uk

[Ymchwil Iechyd Cyhoeddus Cymru, Data a Digidol – Hafan](#)
(sharepoint.com)





Cymorth Astudiaeth Microbioleg Iechyd Cyhoeddus Cymru – eleni mewn niferoedd

**35 o Gytundebau
Lefel Gwasanaeth
masnachol**

**9 Cytundeb Lefel
Gwasanaeth
anfasnachol**

**2 Ddilysiad
Masnachol**

Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso Iechyd Cyhoeddus Cymru 2023–2026

Ymchwil a Gwerthuso yw un o gylchoedd gwaith craidd Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae ein Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso yn nodi **ein hymrwymiad** i weithio gydag eraill i arwain ymchwil a gwerthuso er mwyn gwella iechyd a llesiant pobl yng Nghymru ac er mwyn lleihau anghydraddoldebau iechyd.

Er mwyn i'n cynllun weithio, byddwn yn:

- Meithrin **diwylliant** o ymchwil a gwerthuso
- Gwella'r ffordd rydym **yn rheoli** ac **yn cefnogi** ymchwil a gwerthuso
- **Cydweithio** ag eraill a rhannu canfyddiadau ein hymchwil a'n gwerthuso gyda phawb
- Sicrhau bod partneriaid, rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn **cael eu cynnwys** yn ein hymchwil a'n gwerthuso

Byddwn yn galluogi cyflawni ein strategaeth drwy ganolbwyntio ar gynnal ymchwil a gwerthuso sy'n drylwyr, sy'n ystyrlon, ac sy'n mynd i'r afael â bylchau yn ein gwybodaeth er mwyn gwella iechyd.



Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil a Gwerthuso Iechyd Cyhoeddus Cymru

Rydym wedi cyhoeddi ein Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil a Gwerthuso sy'n rhestru'r cwestiynau ymchwil yr ydym â diddordeb mewn dysgu mwy amdanynt mewn perthynas â'n chwe blaenoriaeth strategol. Mae hyn er mwyn galluogi ymchwilwyr, cyllidwyr a chydweithwyr i ddeall ein blaenoriaethau a chanolbwyntio eu hymdrechion er mwyn cael yr effaith fwyaf.

Pam Cydweithio â Ni?

Er mwyn cefnogi partneriaethau a chydweithrediadau â'r gymuned ymchwil, mae gennym nifer o asedau, rhaglenni a chryfderau ymchwil sydd wedi'u nodi yn ein Strategaeth Ymchwil a Datblygu a'n strategaeth hirdymor, yn ogystal â meysydd trawsbynciol a galluogi sy'n helpu i gyflawni gwaith yn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Rydym yn awyddus i drafod ac ymgysylltu â rhanddeiliaid gan gynnwys ymchwilwyr a chyllidwyr i dynnu ar ystod eang o gryfderau ac arbenigedd i fynd i'r afael â'r cwestiynau hyn. Cysylltwch â'r Swyddfa Ymchwil a Datblygu am ragor o fanylion.

Mae'r cwestiynau hyn yn cael eu diweddarau ddwywaith y flwyddyn.

Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) ar Degwch Iechyd Digidol - Iechyd Cyhoeddus Cymru



Ymgymryd ag ymchwil gydag effaith

Mae ein staff yn cynhyrchu ymchwil arloesol o ansawdd uchel ar draws ystod eang o ddisgyblaethau iechyd y cyhoedd mewn amgylchedd ariannu cynyddol gystadleuol.

Mae'r gwaith hwn yn cael effaith glir ar iechyd y boblogaeth, yn ogystal ag ar bolisi ac arfer, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Mae ehangder ac amrywiaeth y gweithgarwch hwn yn cael ei adlewyrchu drwy gydol yr adroddiad hwn.



Ciplun o Astudiaethau'r GIG

[The third study of Infectious Intestinal Disease in the UK \(IID3 study\)](#) IRAS: 314268

Arweinydd Iechyd Cyhoeddus Cymru: Rachel Chalmers **Llinell Amser:** Mai 2023–Medi 2026

[Development of Pathways for the Diagnosis and Management of Latent Tuberculosis Infection in Wales](#) IRAS: 321836

Arweinydd Iechyd Cyhoeddus Cymru: Tamas Barry **Llinell Amser:** Mawrth 2024–Mehefin 2026

[Colospect](#) IRAS: 293364

Arweinydd Iechyd Cyhoeddus: Steve Court **Llinell Amser:** Mai 2023–Hydref 2027

[Functional genomics of Cryptosporidium](#) IRAS: 340903

Arweinydd Iechyd Cyhoeddus Cymru: Rachel Chalmers **Llinell Amser:** Chwefror 2025–Ionawr 2027

[FungiScope Candida Campaign](#) IRAS: 353096

Arweinydd Iechyd Cyhoeddus Cymru: Lewis White **Llinell Amser:** Gorffennaf 2025–Mehefin 2027

[Vesper](#) IRAS: 1011153

Arweinydd Iechyd Cyhoeddus Cymru: Mandy Wootton **Llinell Amser:** Chwefror 2025–Medi 2026



Ciplun o Astudiaethau'r GIG

[Balloon](#) IRAS: 1007696

Arweinydd Iechyd Cyhoeddus Cymru: Catherine Moore **Llinell Amser:** Hydref 2024–Tachwedd 2028

[Preside](#) IRAS: 346303

Arweinydd Iechyd Cyhoeddus Cymru: Rishi Dillon **Llinell Amser:** Ionawr 2025–Ionawr 2029

[ERS-AMR-CRC](#) IRAS: 327747

Arweinydd Iechyd Cyhoeddus Cymru: Rishi Dillon **Llinell Amser:** Gorffennaf 2024–Mehefin 2028

[EXCISE](#) IRAS: 1009425

Arweinydd Iechyd Cyhoeddus Cymru: Mandy Wootton **Llinell Amser:** Gorffennaf 2025–Mehefin 2027

[Shield](#) IRAS: 352027

Arweinydd Iechyd Cyhoeddus Cymru: Catherine Moore **Llinell Amser:** Medi 2025–Hydref 2026

[Assessing the effect of silver wound dressings on patients](#)

Arweinydd Iechyd Cyhoeddus Cymru: Greg Williams **Llinell Amser:** Ebrill 2026–Rhagfyr 2027

[Help me Quit](#) IRAS: 363766

Arweinydd Iechyd Cyhoeddus Cymru: Jasmine Kew **Llinell Amser:** Hydref 2025–Ionawr 2026





GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Uchafbwyntiau Ymchwil



Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) ar gyfer Tegwch Iechyd Digidol

“Tuag at ddyfodol lle mae data a thrawsnewid iechyd digidol yn gwella canlyniadau iechyd teg, gan ddod â budd i Gymru a rhanbarth ehangach Ewrop”

Trosolwg o'r Ganolfan Gydweithredol

Ffocws cyfredol:

Datblygu offeryn hunanasesu i gefnogi tegwch wrth drawsnewid y system iechyd digidol

Prif weithgareddau:

- Llywio Cynllun Gweithredu Iechyd Digidol Ewrop WHO (2023–2030)
- Datblygu cwricwlwm tegwch iechyd digidol
- Cyfrannu at strategaethau WHO (map ffordd deallusrwydd artiffisial, mentrau iechyd digidol byd-eang)

Y nod:

Datblygu iechyd digidol i wella canlyniadau iechyd teg ledled Cymru ac Ewrop

Cynhaliwyd y digwyddiad lansio ar 24 Tachwedd 2025 yng Ngwesty'r Parkgate yng Nghaerdydd ac roedd cydweithwyr o Sefydliad Iechyd y Byd, y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant a phartneriaid eraill yn bresennol.



**WHO Collaborating Centre
for Digital Health Equity**



COLOSPECT

Treial gwerthuso perfformiad aml-safle sengl arsylwadol rhagolygol cam dau o sbectrosgopi Raman serwm a dosbarthiad dysgu peirianyddol dan oruchwyliaeth mewn poblogaeth sgrinio'r coluddyn sydd wedi derbyn canlyniad positif ar gyfer prawf imiwnocemegol ysgarthol (FIT) – Astudiaeth Cymru'n Un


Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) yn falch o fod y prif safle ar gyfer COLOSPECT, sydd bellach wedi cwblhau recriwtio ac sydd yn y cyfnod dilynol, gan barhau ag ymrwymiad ICC i hyrwyddo ymchwil ledled Cymru.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn hyrwyddo model Un Safle Cymru – dull a brofodd yn hanfodol yn ystod y pandemig, pan arweiniodd Iechyd Cyhoeddus Cymru ar waith sefydlu'r ganolfan frechu genedlaethol. Mae'r dull hwn yn parhau i yrru gwell mynediad at ymchwil, gan gefnogi dilyniant cadarn a galluogi atebion effeithlon i gwestiynau ystyrlon.

“Rwyf wrth fy modd fy mod wedi cyrraedd y ffigur recriwtio targed o 2,000 o gyfranogwyr, sy'n dangos y diddordeb gan y cyhoedd mewn ymchwil sgrinio.”

Mae'n arbennig o drawiadol bod COLOSPECT wedi cynnwys pob un o'r 7 bwrdd iechyd lleol ac mai dyma'r astudiaeth canser sydd wedi recriwtio'r nifer fwyaf o bobl fis ar ôl mis.”

Yr Athro Dean Harris, Llawfeddyg Ymgynghorol y Colon a'r Rhefr Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.



ISO in a Box: Fframwaith Achredu Genomeg

Dan arweiniad yr **Athro Tom Connor** o dîm Genomeg Iechyd Cyhoeddus Cymru, mae prosiect "*ISO in a Box*" yn datblygu fframwaith i symleiddio datblygiad gwasanaethau genomeg gydag achrediad ISO 15189 ac ISO 17025 ledled y byd.

Wedi'i ariannu gan Ymddiriedolaeth Wellcome, daeth y prosiect hwn â £306,987 i Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys rhannu arbenigedd Cymru yn fyd-eang, gan gynnwys ar ymweliadau â'r Gambia a De Affrica yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, lle cynhaliodd yr Athro Connor weithdai yn canolbwyntio ar fiowybodeg ac achredu. Mae'r gwaith hwn, yn rhan o'r prosiect ehangach, yn darparu cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu byd-eang ac arddangos arbenigedd Cymru. Ar yr ymweliad, dywedodd yr Athro Connor: "Mae Cymru wedi sefydlu ei hun fel arweinydd byd-eang ym maes genomeg pathogen. Braint oedd gallu rhannu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth gyda chydweithwyr yn Affrica."

"Roedd y sesiynau'n gynhyrchol iawn, ac er gwaethaf yr heriau a ddaw yn sgil llai o gyllid cymorth, rydym yn parhau'n obeithiol am ddyfodol lle mae genomeg yn chwarae rhan allweddol wrth leihau baich clefydau heintus yn Affrica. Er mwyn adeiladu ar fomentwm yr ymweliad hwn, mae rhagor o gyfarfodydd a gweithgareddau eisoes yn cael eu cynllunio."



Canolfannau Clefydau Prin Trosiadol LifeArc

Mae Llion Davies a Robert Maddison-Jarvis o CARIS yn arwain ymdrechion sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo treialon clinigol arloesol, gwerthusiadau economeg iechyd, ac olrhain datblygiadau rheoleiddio allweddol yn y sector gofal iechyd. Mae rhan sylweddol o'r fenter hon yn cynnwys dyraniad cyllid pwrpasol o £200,000 ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan gefnogi eu rôl wrth hyrwyddo arloesi iechyd y cyhoedd a gwelliannau polisi.

Mae dros 7,000 o gyflyrau prin, ac nid oes gan lawer ohonynt therapi trwyddedig oherwydd yr heriau o ran cydlynio treialon clinigol. Mae Canolfan LifeArc ar gyfer Cyflymu Treialon Clefydau Prin (ARDT) yn anelu at fynd i'r afael â'r anghydraddoldeb hwn drwy ddatblygu porth recriwtio ar lefel y DU ar gyfer treialon clinigol ar glefydau prin.

Gan weithio ar y cyd â chofrestrfeydd eraill y DU a phartneriaid yng Nghymru, mae Dr. Rob Maddison-Jarvis, CARIS, wedi derbyn cyllid i ymchwilio i sut mae data am gleifion â chlefydau prin yn llifo ai peidio er mwyn sicrhau bod cleifion sy'n byw gyda chyflyrau prin yng Nghymru yn elwa'n llawn ar y fenter hon. Mae'r ymchwiliad hwn yn canolbwyntio i ddechrau ar sawl cyflwr enghreifftiol: Syndrom Lynch, anhwylderau storio lysosomaidd, atroffi cyhyrol yr asgwrn cefn a haemoglobinopathïau prin.



for Rare Disease

Cydgrynhoi fframio deongliadol o allgáu digidol a chynnal ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid i lywio ymarfer a gwerthuso

Llwyddodd Dr Diana Bright a'i thîm i sicrhau £153,275.58 gan Raglen Ymchwil Iechyd y Cyhoedd (PHR) NIHR i gynnal synthesis tystiolaeth hermeneutig ar y pwnc '[Deall Cyfraniad Allgáu Digidol at Anghydraddoldebau Iechyd: Adolygiad Hermeneutig a Fframio Deongliadol](#)'

Bydd y prosiect sy'n cynnwys cyd-ymgeiswyr Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd (PPI) yn gydweithrediad â Phrifysgol Rhydychen, Cwmpas, Cymdeithas Tai Newydd ac Alltudion ar Waith.

"Mae'r prosiect hwn yn dwyn ynghyd dystiolaeth a phrofiad o'r byd go iawn i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o allgáu digidol, gan helpu sefydliadau i ddylunio a gwerthuso mentrau cynhwysiant digidol mwy effeithiol a all leihau anghydraddoldebau iechyd. Bydd yn cynhyrchu allbynnau ymarferol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan gynnwys ffeithlun a phedwar persona, i gefnogi ymarferwyr sy'n gweithio gyda chymunedau sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol. Cyflwynir yr allbynnau hyn mewn gweithdy wyneb yn wyneb ym mis Mehefin 2026" Dr Diana Bright.



EDICTS-M Ethical Determination In sequenCing diagnosTics developmentS-Metagenomics

Mae'r protocol labordy hwn yn defnyddio samplau clinigol dros ben neu wedi'u taflu a gesglir yn ystod gofal arferol i gefnogi arloesedd diagnostig. Mae'n gwbl anfasnachol ac wedi'i gynllunio i sicrhau'r canlynol:

- Datblygu biobroffion newydd ar gyfer canfod pathogenau.
- Optimeiddio biobroffion agnostig presennol gan ddefnyddio deunydd clinigol dienw, dros ben.

Mae **Lewis White, Gwyddonydd Clinigol** yn adran Microbioleg Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn cydweithio â Guy's St Thomas' a Prifysgol Caerdydd, fel Prif Ymchwilydd.

Bydd echdyniadau asid niwclëig o samplau cleifion, sy'n fwy na'r anghenion diagnostig safonol, yn cael eu trosglwyddo i Brifysgol Caerdydd a bydd yr holl ddadansoddiad yn cael ei rannu â Guy's St Thomas' fel Noddwr yr astudiaeth. Bydd y darnau hyn yn cael eu defnyddio ar gyfer:

- Adeiladu llyfrgell
- Dilyniannu metagenomig nanoporau

Nod y bartneriaeth hon yw gwella galluedd diagnostig drwy ddilyniannu uwch a datblygu biobroffion.



Cyllid gan y Cynllun Gwirfoddol ar gyfer Prisio, Mynediad a Thwff Meddyginiaethau wedi'u Brandio (VPAG) – Galwad am Offer Cyflenwi Ymchwil Masnachol

Llwyddodd Tom Connor yn ei gais am gyllid gan VPAG, a ddyfarnwyd gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ar ran Llywodraeth Cymru ar gyfer yr Uned Genomeg Pathogenau – PENGU.

Yr amcanion:

1. Ehangu'r Capasiti Dilyniannu drwy osod MiSeq i100, gan alluogi hyd at dri rhedriad dyddiol ychwanegol a dilyniannu pathogenau/microbiomau pwrpasol ar gyfer treialon masnachol.
2. Lleihau Amserau Gweithredu Dilyniannu o dros 80% i fodloni gofynion treialon masnachol gyda chyflenwi cyflymach a mwy hyblyg.
3. Sefydlu capasiti pwrpasol i gefnogi o leiaf bum cais am dreial masnachol y mis erbyn 31 Mawrth 2027, gan ddefnyddio MiSeq i100 i ddenu astudiaethau diagnostig, gwrthficrobaidd, a meddygaeth fanwl newydd i Gymru.



Incorporating wastewater-based epidemiology into a real-time, multiplex public health surveillance system

Mae'r prosiect yn datblygu system wylidwriaeth iechyd y cyhoedd amser real newydd sy'n cyfuno data dŵr gwastraff â data clinigol, data arolygon a data iechyd syndromig i roi darlun mwy cywir o weithgarwch clefydau. Mae'n defnyddio modelu ystadegol uwch i gysylltu'r gwahanol ffynonellau data hyn a deall pryd a ble mae angen gweithredu ym maes iechyd y cyhoedd.

Mae cyd-arweinwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru – **Alisha Davies** a **Christopher Williams** – yn cyfrannu arbenigedd iechyd y cyhoedd, gan helpu i lunio sut mae'r system wylidwriaeth integredig yn gweithio'n ymarferol a sicrhau bod y gydran dŵr gwastraff yn ystyrlon ar gyfer gwneud penderfyniadau yn y byd go iawn.



Iechyd rhywiol yn ddiweddarach mewn bywyd: deall a mynd i'r afael â thueddiadau cynyddol o ran heintiau a drosglwyddir yn rhywiol ymysg oedolion hŷn yng Nghymru

Llwyddodd Liam Mahedy yn ei gais i Grwsibl Cymru ar gyfer ei brosiect 'Iechyd rhywiol yn ddiweddarach mewn bywyd: deall a mynd i'r afael â thueddiadau cynyddol o ran heintiau a drosglwyddir yn rhywiol mewn oedolion hŷn yng Nghymru', sy'n archwilio iechyd rhywiol mewn oedolion 55 oed a throsodd, yn enwedig y cynnydd diweddar mewn diagnosis o heintiau a drosglwyddir yn rhywiol. Y nod yw cefnogi gwasanaethau iechyd y cyhoedd mwy cynhwysol ac ymatebol yng Nghymru.

Mae'r wobr o £5,530 yn golygu y bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio mewn cydweithrediad â Phrifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd ar fater pwysig nad yw wedi'i archwilio'n ddigonol, a gafodd ganmoliaeth am fod yn arloesol ac yn ddiddorol.

"Roedd yn wych cael y grant hwn gan Grwsibl Cymru, yn enwedig am waith sy'n anaml yn weladwy mewn sgysiau iechyd y cyhoedd. Bydd y prosiect yn ein helpu i ddeall sut mae oedolion hŷn yn llywio gwybodaeth iechyd rhywiol fel y gallwn ddylunio gwasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion go iawn." Liam Mahedy



Ymyriadau Sgrinio Coluddion er mwyn Lleihau Cyfraddau Heb Fynychu

Beth oedd yr her?

Helpu rhagor o bobl i gael gofal dilynol ar ôl prawf sgrinio'r coluddyn FIT-positif

Beth gafodd ei wneud?

Yn 2025, cyflwynodd Sgrinio Coluddion Cymru lythyrau cliriach, negeseuon testun atgoffa a galwadau ffôn gan Lywyr Llwybrau i gefnogi'r rhai nad oeddent yn ymateb. Gwellodd llythyrau ymatebion cynnar, a chynyddodd negeseuon testun ac yn enwedig galwadau ffôn ymgysylltiad ymhellach, yn enwedig ar gyfer y rhai sy'n wynebu pryder, dryswch, salwch neu bwysau amser.

Beth oedd y canlyniad?

Nodwyd dros 1,200 o bobl nad oeddent wedi ymateb; cysylltwyd â bron i hanner, ac fe wnaeth tua un o bob pedwar drefnu apwyntiad. Roedd gan rai bolypau, a chafodd eraill ofal cancer ar gyflymder.

Profwyd mai cyfuno llythyrau, negeseuon testun a chefnogaeth bersonol oedd y dull mwyaf effeithiol. Mae Llywyr Llwybrau Pwrpasol yn cynnig ffordd gost isel ac effaith uchel o wella diagnosis cynnar a lleihau anghydraddoldebau.



Understanding the barriers and facilitators to engagement with Diabetes services to improve outcomes and prevent complications from Type 2 Diabetes Mellitus (T2DM) among adults living with T2DM in Wales: a qualitative study (2025)

Dr Esther Mugweni, Deputy Head of Evaluation PHW & Adam Blunt, Beaufort Research

Beth oedd yr her?

Roedd cyfraddau Diabetes Math 2 yn cynyddu yng Nghymru, ac roedd pobl yn ei chael hi'n anodd ymgysylltu â gwasanaethau a hunanreoli oherwydd dealltwriaeth gyfyngedig, rhwystrau emosiynol, problemau mynediad a dylanwadau cymdeithasol.


Beth gafodd ei wneud?

Comisiynodd Iechyd Cyhoeddus Cymru ymchwil ansoddol, gan gynnwys 50 o gyfweiliadau â phobl sy'n byw gyda Diabetes Math 2 a 15 â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, a ddadansoddwyd gan ddefnyddio fframweithiau newid ymddygiad.

Beth oedd y canlyniad?

Nodwyd pedwar ffactor sy'n sbarduno ymgysylltiad: gwybodaeth, ffactorau emosiynol, hygyrchedd gwasanaethau a dylanwadau cymdeithasol.

Roedd yr argymhellion yn canolbwyntio ar addysg gliriach, gwasanaethau mwy hyblyg, cefnogaeth emosiynol gryfach, cefnogaeth gryfach gan gymheiriaid a defnydd gwell o dechnoleg.



Testing the Public Health Intervention Wheel Against Three UK Nurse-Led Public Health Workstreams

Stephanie E. Perrett, Christie Craddock, Lesley Thomas, Emma Cain, Michelle Hughes

Beth oedd yr her?

Can weithio fel rhan o weithlu amlddisgyblaethol, ceisiom ddiffinio ein rolau nyrsio yn well ac ystyried ein cyfraniad unigryw ym maes iechyd y cyhoedd. Roeddem yn awyddus i archwilio cwrpas ein hymarfer nyrsio i nodi ffyrdd o wella ein heffaith a'n cyrhaeddiad.


Beth gafodd ei wneud?

I wneud hyn, gwnaethom fapio ein gwaith yn erbyn fframwaith nyrsio iechyd y cyhoedd sefydledig, sef *The Public Health Intervention Wheel* (Adran Iechyd Minnesota 2019), er mwyn ateb y cwestiynau canlynol:

1. A allwn brofi'r Olwyn gan ddefnyddio ein gwasanaethau dan arweiniad nyrsys?
2. A all yr Olwyn ein helpu i nodi cwrpas ein hymarfer, gan amlygu meysydd y gellid eu datblygu ymhellach?

Beth oedd y canlyniad?

Mae'r Olwyn Ymyrraeth yn helpu i ddangos sut mae nyrsys iechyd y cyhoedd yn cyfrannu ar lefel unigol, gymunedol a systemau, gan gryfhau llais ymarfer nyrsio iechyd y cyhoedd. Roedd yr Olwyn yn offeryn llwyddiannus ar gyfer gwerthuso cydrannau ein gwaith, a helpodd i nodi ymhle gellid cryfhau gwasanaethau a rhaglenni. Mae gwaith eisoes ar y gweill i gryfhau'r rhaglenni yn y meysydd a nodwyd gennym o ganlyniad i fapio ein gwaith i'r Olwyn. Gwnaeth defnyddio ein rhaglenni gwaith i brofi'r Olwyn hefyd helpu i awgrymu sut y gellid datblygu'r Olwyn ymhellach i sicrhau ei bod yn dal pob agwedd ar gyfraniad y nyrsys at iechyd y cyhoedd.



A Mixed-Methods Evaluation of a Cross-Sectoral Partnership to Promote Mental Wellbeing in Wales (2022-2027)

Dr Jack Walklett, Dr Alex Christensen, Dr Charlotte Grey, Dr Esther Mugweni, Emily van de Venter, Carol Owen & Dr Alisha Davies

Beth oedd yr her?

Mae llesiant meddyliol da yn cefnogi iechyd corfforol a meddyliol. Mae Hapus yn rhaglen genedlaethol amlochrog dan arweiniad Iechyd Cyhoeddus Cymru (2022–27) i hyrwyddo llesiant meddyliol y boblogaeth. Mae un ffrwd waith yn canolbwyntio ar ddatblygu partneriaeth strategol draws-sector i alluogi gweithredu ar y cyd. Mae'r cyflwyniad hwn yn amlinellu canfyddiadau cynnar o werthusiad hirdymor o'r bartneriaeth hon.


Beth gafodd ei wneud?

Cynhaliwyd cyfweiliadau manwl gyda chynrychiolwyr o wyth o'r deuddeg sefydliad partner i archwilio eu rôl wrth hyrwyddo llesiant meddyliol ac effaith cyfranogiad. Dosbarthwyd arolwg ategol, yn seiliedig ar yr Offeryn Dadansoddi Partneriaeth, i bob un o'r deuddeg sefydliad er mwyn asesu gwerth a phrofiadau partneriaeth.

Beth oedd y canlyniad?

Mae'r dadansoddiad yn parhau. Mae canfyddiadau cynnar yn awgrymu bod y bartneriaeth wedi gwella dealltwriaeth o lesiant meddyliol, wedi cryfhau cysylltiadau, ac wedi cefnogi partneriaid i fireinio ac ehangu eu gweithgareddau. Nododd y cyfranogwyr hefyd sut y gallai Iechyd Cyhoeddus Cymru gefnogi darpariaeth ymhellach yn y dyfodol.

Hyd yn hyn, mae'r bartneriaeth wedi bod yn fuddiol, gan feithrin dealltwriaeth a rennir a chydweithrediad cryfach ar draws sectorau. Mae blaenoriaethau allweddol yn cynnwys rhannu tystiolaeth ar ddulliau effeithiol ac egluro rolau partneriaid. Gall y mewnwediadau hyn lywio gweithio mewn partneriaeth yn ehangach ar draws iechyd y cyhoedd.

The word 'hapus' is written in a stylized, cursive font in black, set against a light blue rectangular background.

Help Me Quit – Jasmine Kew (MPH)

Beth oedd yr her?

Er gwaethaf cyfraddau ysmegu sy'n gostwng, mae tybaco yn parhau i fod yn brif achos salwch y gellir ei atal a marwolaeth gynamserol yng Nghymru. Mae ysmegu a chanlyniadau iechyd cysylltiedig yn sylweddol waeth mewn cymunedau mwy difreintiedig, gyda chyfraddau marwolaeth dros dair gwaith yn uwch nag yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig yn 2022. Gall mynd i'r afael ag ysmegu helpu i leihau'r anghydraddoldebau hyn, yn enwedig drwy wasanaethau wedi'u targedu fel Helpa Fi i Stopio, sef rhaglen genedlaethol Cymru ar gyfer rhoi'r gorau i ysmegu, sy'n darparu cefnogaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth gan gynnwys cwnsela a meddyginiaeth.

Beth gafodd ei wneud?

Dadansoddwyd data Helpa Fi i Stopio (2017–2025) i asesu a yw statws economaidd-gymdeithasol yn effeithio ar lwyddiant rhoi'r gorau i ysmegu a chyfraddau rhoi'r gorau i wasanaethau, fel cam cyntaf tuag at sicrhau canlyniadau teg.

Beth oedd y canlyniad?

Nododd yr astudiaeth gysylltiadau pwysig rhwng amddifadedd (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) a chyfraddau rhoi'r gorau i ysmegu. Bydd canfyddiadau'n llywio cynllun gweithredu 2026–27 ac yn cefnogi grwpiau blaenoriaeth yn well, yn arwain datblygiad gwasanaethau (gan gynnwys mynediad digidol, meddyginiaethau, a marchnata cymdeithasol), ac yn darparu cod a dadansoddiad y gellir eu hailddefnyddio ar gyfer ymchwil yn y dyfodol.





GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Cefnogi'r genhedlaeth nesaf o ymchwilwyr iechyd y cyhoedd



Doethuriaeth – Functional Genomics of *Cryptosporidium* spp – Rachel Chalmers

Mae'r astudiaeth hon yn ymwneud â'r Uned Gyfeirio Cryptosporidiwm yn darparu samplau, data ac arbenigedd mewn cydweithrediad â Phrifysgol East Anglia, Sefydliad Francis-Crick (Llundain) a Sefydliad Ymchwil Gwrth-heintiol Wellcome (Dundee, yr Alban).

Mae'r astudiaeth hon yn canolbwyntio ar y clefyd Cryptosporidiosis. Clefyd yw hwn sy'n effeithio ar y perfedd a achosir gan yfed dŵr, bwyta bwyd, neu drwy gysylltiad ag anifeiliaid neu eu baw sy'n cario'r parasit Cryptosporidiwm. Mae rheoli clefion yn anodd gan nad oes unrhyw gyffuriau effeithiol yn erbyn Cryptosporidiwm, ac nid oes unrhyw rai wedi'u trwyddedu i'w defnyddio yn y DU na'r UE.

Bydd y samplau'n cael eu defnyddio mewn arbrofion sy'n ymchwilio i'r dulliau yn ymwneud â goresgyniad parasitiaid o gelloedd lletyol, ac i benderfynu a ellir defnyddio'r dulliau hyn fel targedau ar gyfer datblygu cyffuriau.



One Zoo (Doethuriaeth)

Drwy gyllid One Zoo, mae ein clinigwyr wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd a Phrifysgol Aberystwyth, gan ystyried iechyd yr amgylchedd a chlefydau heintus.

Maent wedi bod yn archwilio llwybrau a chysylltedd sbardunau haint a sut mae clefydau milheintiol yn lledaenu. Gan fod yr amgylchedd wedi newid ers y cais gwreiddiol, mae'r feirysau y canolbwyntir arnynt wedi newid.

Mae hyn yn ein helpu i ddeall trosglwyddo firysau yn well fel ein bod yn fwy parod ar gyfer pandemigau.

Mae un o'n prosiectau yn archwilio'r rhyngwynebau rhwng pobl a chŵn fferm mewn perthynas â throsglwyddo ac atal Clefyd Hydatid yng nghanolbarth Cymru, sy'n fan problemus hysbys lle mae'r parasit achosol, sef *Echinococcus granulosus*, yn endemig.



HSST- Investigating resistance and microbiota changes in response to commonly used wound dressings – Greg Williams, Clinical Liaison BMS

Nod yr astudiaeth hon yw edrych ar sut mae bacteria mewn clwyfau yn newid ar ôl defnyddio gorchuddion clwyfau a ddefnyddir yn gyffredin ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

Bydd Cam 1 yn dadansoddi bacteria o glwyfau ledled Cymru i nodi genynnau neu newidiadau sy'n gysylltiedig â gwrthwynebiad i wrthfotigau neu arian ac i asesu patrymau cyffredinol cleifion.

Bydd Cam 2 yn dilyn cleifion mewn clinigau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe dros amser i archwilio sut mae bacteria clwyfau yn newid gyda gwahanol orchuddion, gan gynnwys gweithgarwch genynnau a allai ddylanwadu ar wella.

Gallai'r canfyddiadau lywio ymchwil a gwelliannau mewn gofal clwyfau yn y dyfodol er mwyn cefnogi gwell canlyniadau o ran gwella.



Gwobrau Ymchwil Datblygiad Personol ar gyfer Staff Iechyd Cyhoeddus Cymru

Datblygu Gyrfaoedd Ymchwil

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn bwrw ymlaen â thrydedd flwyddyn ei Rhaglen Mentora Ymchwil mewn partneriaeth â Chyfadrn Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, gan adeiladu ar y dull a sefydlwyd i gefnogi datblygiad staff drwy gynlluniau gwobrwyo personol y Gyfadrn.

Mae datganiad o ddiddordeb yn cael ei gyhoeddi i staff Iechyd Cyhoeddus Cymru i nodi ymchwilwyr uchelgeisiol o bob cwr o'r sefydliad sydd â syniadau ymchwil hyfyw a'r gefnogaeth sydd ei hangen i ddatblygu ceisiadau cystadleuol.

Bydd y rhaglen yn cefnogi carfan wedi'i mentora i baratoi ar gyfer cynlluniau gwobrwyo personol Cyfadrn Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, sy'n agor ym mis Medi 2026, a'i bwriad yw cryfhau capasiti a gallu ymchwil ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru drwy gefnogi dilyniant ar wahanol gamau gyrfa.



Ymchwil Iechyd
a Gofal **Cymru**
Health and Care
Research **Wales**



Michelle Hughes, Uwch Nyrs Diogelu Iechyd, Rhaglen Iechyd Cynhwysiant Clefydau Trosglwyddadwy

Cwblhawyd astudiaeth ansoddol sy'n archwilio safbwyntiau unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau allgymorth i adnabod sirosis, a hynny gyda chyllid gan Gymrodoriaeth Cyntaf i Ymchwil Cydweithrediad Cynyddu Gwaith Ymchwil Cymru (RCBC Cymru), a gyflwynwyd drwy bartneriaeth gydweithredol â Phrifysgol Caerdydd.

Mae'r prosiect hwn yn cyd-fynd â Law yn Llaw at Iechyd – Cynllun Cyflawni ar gyfer Clefyd yr Afu Llywodraeth Cymru i leihau anghydraddoldeb o ran hygyrchedd gwasanaethau. Un o'r heriau allweddol i Gymru ar hyn o bryd yw cyrraedd pobl sydd mewn perygl o gael clefyd yr afu ond nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau gofal iechyd a ddarperir fel arfer.

"Mae'r astudiaeth bellach wedi'i chwblhau, ac mae'r adroddiad terfynol wedi'i gyflwyno i RCBC Cymru. Gan adeiladu ar y gwaith hwn, rwy'n cydweithio ag adran Ymchwil a Datblygu Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a'r Tîm Cyffuriau ac Alcohol Cymunedol i archwilio darpariaeth Fibroscan o safbwynt hybu iechyd. Mae llawysgrif o'r astudiaeth wedi'i derbyn i'w chyhoeddi yn y Journal of Research in Nursing, a ddatblygwyd mewn cydweithrediad â'm goruchwyliwr a'r Nyrs Arbenigol Hepatoleg ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Rwyf hefyd yn gweithio gyda thîm hepatoleg Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i ledaenu canfyddiadau ac archwilio datblygiad pecyn hyfforddi sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer staff", Michelle Hughes



Arweinwyr Arbenigedd Iechyd y Cyhoedd – Yr Athro Alisha Davies a'r Athro Tom Connor

Cyhoeddodd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru benodiad yr Athro **Alisha Davies** a'r **Athro Tom Connor** yn Arweinwyr Arbenigedd Iechyd y Cyhoedd. Eu rôl fydd parhau i hyrwyddo a chefnogi cyflawni ymchwil, adeiladu rhwydweithiau o brif ymchwilwyr o fewn eu harbenigedd a chefnogi nifer y bobl sy'n ymgymryd ag astudiaethau ledled Cymru.

Dywedodd **Dr Nicola Williams**, Cyfarwyddwr Cenedlaethol Cymorth a Chyflawni yn Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru: "Mae ein Harweinwyr Arbenigedd yn hanfodol i hyrwyddo ymchwil ar draws pob portffolio clinigol, gan atgyfnerthu ein dull Cymru'n Un.

"Maent hefyd yn chwarae rhan allweddol wrth ehangu ein gallu ar gyfer ymchwil fasnachol, gyda chyllid gan raglen y Cynllun Gwirfoddol ar gyfer Prisio, Mynediad a Thwf Meddyginiaethau wedi'u Brandio (VPAG). Ar ben hynny, maent yn cyfrannu'n sylweddol at rwydweithio mewn cyfarfodydd Arweinwyr Arbenigedd y DU, gan feithrin ymgysylltiad ar draws rhwydwaith cenedlaethol ehangach."



Ymchwil Iechyd
a Gofal **Cymru**
Health and Care
Research **Wales**



Uwch Arweinydd Ymchwil – Yr Athro Tom Connor

Penodwyd **Tom Connor** yn Uwch Arweinydd Ymchwil yn Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Mae'n gydnabyddiaeth o fri sy'n cydnabod arweinyddiaeth ymchwil unigolyn a'i gyfraniad at y gymuned ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Disgwyliad:

- Darparu arweinyddiaeth i weithwyr proffesiynol ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.
- Helpu i ddenu, datblygu a chadw myfyrwyr ac ymchwilwyr o ansawdd uchel.
- Mentora a chefnogi'r genhedlaeth nesaf o arweinwyr ymchwil yng Nghymru.
- Bod yn llysgennad dros Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, gan hyrwyddo ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.
- Cynnig cyngor strategol i Is-adran Ymchwil a Datblygu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru.
- Cyfrannu, fel uwch arweinydd, at weithgareddau strategol a gweithredol, gan gynnwys byrddau ariannu, gweithgorau, datblygu cynlluniau a mentrau a digwyddiadau'r Gyfadran



Mae Tom eisiau datblygu'r ecosystem genomeg ehangach yng Nghymru, ac mae'n credu y byddai'r cynllun hwn yn fecanwaith effeithiol lle gall ei arbenigedd gefnogi ymdrechion Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i ddatblygu'r dirwedd ymchwil yng Nghymru.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Partneriaethau a Chydweithio Ymchwil



Gweledigaeth ar gyfer Ymchwil Iechyd y Cyhoedd Academaidd yng Nghymru – 2026

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi arwain y gwaith o gyd-ddatblygu Gweledigaeth Gyffredin ar gyfer Ymchwil Iechyd y Cyhoedd Academaidd yng Nghymru, wedi'i llywio gan adolygiad 2025 o'r dirwedd ymchwil ac ymgysylltu â phartneriaid ar draws addysg uwch, y GIG, llywodraeth leol a'r trydydd sector.

Mae'r weledigaeth yn amlinellu nodau ac egwyddorion cyffredin i gryfhau cydgysylltu, gallu, cydweithio ac effaith, a bydd yn darparu fframwaith cenedlaethol ar gyfer system ymchwil iechyd y cyhoedd academaidd yng Nghymru sy'n fwy cysylltiedig ac yn canolbwyntio ar y dyfodol.

Y camau nesaf: Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio gyda'r Prif Swyddog Meddygol, Llywodraeth Cymru a phartneriaid ehangach i sefydlu grŵp llywio Cymru a'r DU er mwyn darparu arweinyddiaeth ar y cyd a goruchwyllo'r gwaith o weithredu'r camau a nodir yn y weledigaeth.



Prifysgol Caerdydd – Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MoU)

Llofnodwyd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Phrifysgol Caerdydd ym mis Ebrill 2026 i ddarparu fframwaith strategol cryfach ar gyfer cydweithio mewn ymchwil iechyd y cyhoedd.

Mae'r bartneriaeth yn cael ei datblygu drwy drefniadau llywodraethu a rheoli, ac mae gwaith thematig yn canolbwyntio ar genomeg, gwyddor ymddygiad, parodrwydd ar gyfer pandemig a newid hinsawdd ac iechyd, ochr yn ochr â themâu trawsbynciol datblygu sgiliau a'r gweithlu, hwyluso defnyddio polisi a gwybodaeth, a seilwaith digidol a deallusrwydd artiffisial.

Mae gweithredu cynnar ar y gweill, ac mae trefniadau rheoli wedi'u sefydlu a lansiad ffurfiol wedi'i gynllunio ar gyfer Gorffennaf 2026.



Ymchwil Sgrinio

Mae Ymchwil Sgrinio yn gydweithrediad rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Caerdydd er mwyn darparu adnodd pwrpasol, cynaliadwy ac ystwyth sy'n canolbwyntio ar sgrinio poblogaeth er mwyn:

- Hyrwyddo a datblygu ymchwil, gwerthuso ac addysg.
- Gwella iechyd poblogaeth Cymru drwy gynyddu nifer y bobl sy'n cael eu sgrinio a lleihau anghydraddoldebau mewn perthynas â nifer y bobl sy'n cael eu sgrinio.
- Hyrwyddo ymarfer arloesol, technolegau a methodolegau sgrinio newydd.

Ar hyn o bryd mae'r grŵp wrthi'n datblygu ei gynllun gwaith a hefyd yn ffurfioli'r berthynas waith rhwng y ddau sefydliad.



Hwb Hyfywedd SAIL

Ystyr Cronfa Ddata SAIL yw Cronfa Ddata Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw. Mae'n hafan ddiogel ar gyfer biliynau o gofnodion sy'n seiliedig ar bobl, sy'n galluogi ymchwilyr i ateb cwestiynau pwysig er budd cymdeithas. Gall ymchwilyr gael mynediad at ystod eang o ddata a gesglir yn rheolaidd o boblogaeth gyfan. Mae'r data hwnnw'n ymestyn hyd at 30 mlynedd.

Bydd Hwb Hyfywedd Data Cysylltiol Iechyd Cyhoeddus Cymru yn defnyddio dulliau sy'n seiliedig ar ddata i ymchwilio i gwestiynau ymchwil sy'n gefn i gamau gweithredu a pholisïau iechyd y cyhoedd yng Nghymru.

Bydd yn gwerthuso dichonoldeb mynd i'r afael â chwestiynau blaenoriaeth gan ddefnyddio Cronfa Ddata SAIL, sy'n cynnwys data helaeth sy'n gysylltiedig ag iechyd.

Bydd yr Hwb yn asesu argaeledd data, cysylltiadau posibl, ffynonellau data newydd, cwrpas, ansawdd, cyflawnder, grwpiau rheoli, a meintiau samplau.

Bydd ffigurau ac amcangyfrifon cryno yn llywio adroddiadau mewnol a cheisiadau am grantiau ymchwil.

Nod y gwaith hwn yw gwella effeithlonrwydd y broses cwrpasu a chymeradwyo, gan sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu i brosiectau hyfyw.




Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth – Cydweithrediad Ymchwil ar Benderfynyddion Iechyd (HDRC) Rhondda Cynon Taf (RhCT) (MoU)

Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i sefydlu rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer darparu a chefnogi gweithrediad y Cydweithrediad Ymchwil ar Benderfynyddion Iechyd (HDRC) rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (RhCT) ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.



Nod HDRC RhCT yw datblygu partneriaeth a gynlluniwyd i hyrwyddo gwybodaeth ac arbenigedd maes ar benderfynyddion ehangach iechyd, anghydraddoldebau iechyd ac ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi iechyd y cyhoedd.

Mae cyfranogiad Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dod ag arbenigedd mewn dulliau gwerthuso, blaenoriaethu ymchwil, datblygu a chyflwyno ymchwil iechyd y cyhoedd mewn cydweithrediad â rhwydweithiau academiaidd ehangach sy'n canolbwyntio ar benderfynyddion ehangach iechyd.



Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gydag Iechyd Cyhoeddus yr Alban

Mae gan Gymru a'r Alban alluoedd genomeg pathogenau cryf, ac mae cyfleoedd i gydweithio o ystyried maint, heriau a blaenoriaethau cyffredin.

Yn ystod COVID-19, bu Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Iechyd Cyhoeddus yr Alban yn cydweithio i ddatblygu a darparu gwasanaethau cenedlaethol, gan ddangos model ffederal a wellodd werth, cyflymder a rhannu data.

Bydd cryfhau'r cysylltiadau hyn bellach yn gwella gallu ac yn darparu rhagor o fuddion i gleifion a phoblogaethau.

Bydd y cydweithrediad yn:

- Gwella darpariaeth gwasanaethau drwy rannu arbenigedd
- Cryfhau ymchwil drwy ddata cyfunol
- Hyrwyddo safoni a rhannu data gwell
- Cefnogi hyfforddiant ar y cyd a chyfnewid gwybodaeth
- Lleihau dyblygu, gan arbed amser ac ymdrech





GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Fforymau a Rhwydweithiau Ymchwil



Cynhadledd Ymchwil a Gwerthuso Iechyd Cyhoeddus Cymru 2025

Ar 3 Rhagfyr 2025, daeth y Cynhadledd Ymchwil a Gwerthuso â mwy na 100 o fynychwyr ynghyd, ac ymunwyd wyneb yn wyneb ac yn rhithiol.

Yn unol â'n hymrwymiad i gynaliadwyedd, cynhaliwyd y digwyddiad yn Capital Quarter 2 yng Nghaerdydd – lleoliad a brofodd yn hygyrch ac a dderbyniodd ganmoliaeth gan gyfranogwyr.

Tynnodd y rhaglen sylw at ystod eang o waith o bob cwr o Iechyd Cyhoeddus Cymru drwy gyflwyniadau llafar ac arddangosfeydd poster. Cyfoethogwyd y digwyddiad ymhellach gan stondinau arddangos partner o Brifysgol Met Caerdydd, Sefydliad Gweithgaredd Corfforol, Iechyd a Chwaraeon Cymru a Chronfa Ddata SAIL.

Edrychwn ymlaen at sicrhau'r un llwyddiant ar gyfer cynhadledd 2026 ar 3 Rhagfyr 2026.



Sesiynau Taflu Goleuni ar Ymchwil Iechyd y Cyhoedd

Mae'r gweminarau amser cinio hyn yn arddangos rhaglenni, rhwydweithiau a seilweithiau ymchwil iechyd y cyhoedd ar raddfa fawr.

Cânt eu cyflwyno mewn fformat 'dangos a dweud' hamddenol, ac maent yn cyflwyno tystiolaeth newydd, yn meithrin cysylltiadau, ac yn creu cyfleoedd i gydweithio â siaradwyr allanol.

Maent yn codi ymwybyddiaeth o fentrau ymchwil allweddol ac yn annog ymgysylltiad ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae'r sesiynau a gyflwynwyd hyd yma yn cynnwys:



Our Future Health
Ros Blackwood, Director of
Population Health Insights



Women's Health
Research Wales
Ymchwil Iechyd
Menywod Cymru

**Women's Health Research
Wales**
Jacky Boivin, Director



PRIME Centre Wales
Alison Porter, Associate
Director of PRIME Centre Wales

Wales Centre for Primary and Emergency Care Research
Canolfan Cymru argyfer Ymchwil Gofal Sylfaenol a Gofal Brys (Canolfan PRIME)




**Centre for Development, Evaluation,
Complexity and Implementation in
Public Health Improvement (DECIPHER)**
James Lewis, International
Engagement Lead

Sesiynau datblygu gyrfa 'Teithiau mewn Ymchwil'

Cafodd y sesiynau hyn eu lansio ym mis Medi 2025 gan y Swyddfa Ymchwil a Datblygu, ac maent yn creu gofod anffurfiol i arddangos a dathlu ymchwil ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Maent yn cynnwys ymchwilwyr amrywiol sy'n rhannu eu teithiau gyrfa a'u gwaith cyfredol.

Mae'r sesiynau yn hamddenol ac yn hygyrch, ac maent yn ysbrydoli cydweithwyr wrth dynnu sylw at arbenigedd mewnol a rôl y Swyddfa Ymchwil a Datblygu wrth gefnogi a chysylltu staff.



Sesiynau galw heibio misol ar gyfer cymorth gan y Swyddfa Ymchwil a Datblygu

Mae Swyddfa Ymchwil a Datblygu Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnal sesiwn galw heibio amser cinio bob mis (ar y dydd Mercher cyntaf), sydd ar gael i holl staff Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae'r sesiynau anffurfiol hyn yn cynnig cefnogaeth ar gyllid, datblygu prosiectau, cymeradwyaethau a gyrfaoedd ymchwil.


Mae nifer o bobl yn mynychu ac yn gwerthfawrogi'r sesiynau hyn, ac maent yn darparu dewis gwahanol a mwy hyblyg i gyfarfodydd ffurfiol, yn gwella mynediad at gymorth ac yn cynyddu ymgysylltiad â'r Swyddfa Ymchwil a Datblygu.



Cymuned Ymarfer Gwerthuso Iechyd Cyhoeddus Cymru (ECOP)

Mae'r Gymuned Ymarfer Gwerthuso yn parhau i fod yn fecanwaith allweddol ar gyfer meithrin gallu ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru, gyda 527 o aelodau a rhaglen o ddysgu a rennir sy'n canolbwyntio ar gryfhau dulliau ac ymarfer gwerthuso. Dros y chwe mis diwethaf, mae gweithgareddau wedi cynnwys gweminarau, canllawiau ymarferol ac adnoddau i gefnogi gwerthusiad mwy cyson ac o ansawdd uchel ar draws y sefydliad.

- Wedi cynnal **14 gweminar**, sy'n cynnwys siaradwyr gwadd arbenigol, gyda 70–100 o fynychwyr ym mhob un.
- Wedi tyfu i **600 o aelodau** ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru a Thimau Iechyd y Cyhoedd Lleol.
- Wedi cyhoeddi **17 adnodd "Cyflwyniad i..."** ar ddulliau gwerthuso, gydag adborth cadarnhaol, ac mae rhagor wrthi'n cael eu datblygu.
- Wedi cyhoeddi **9 Blog** gyda rhagor yn y broses o gael eu datblygu.



Hyrwyddwyr Gwerthuso Iechyd Cyhoeddus Cymru

Lansiwyd y rhaglen beilot Hyrwyddwyr Gwerthuso ym mis Ionawr 2026 i gryfhau hyder, cysondeb a gwelededd gwerthuso ar draws timau.

Mae adborth cynnar wedi tynnu sylw at ymrwymiad cryf i werthuso, ochr yn ochr â heriau cyffredin sy'n ymwneud â chapasiti, mynediad at ddata a llywodraethu, ac mae wedi atgyfnerthu'r angen i ymgorffori gwerthuso yn gynharach wrth ddylunio gwasanaethau a rhaglenni.



Clinigau Gwerthuso Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae Clinigau Gwerthuso Galw Heibio yn parhau i ddarparu cefnogaeth ymarferol un i un i staff Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ddylunio gwerthusiadau, cynllunio a chymhwyso Safonau Gwerthuso Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Ers y lansiad, mae'r clinigau wedi cefnogi 58 o drafodaethau gwerthuso ar draws ystod eang o raglenni, gan helpu i gryfhau ansawdd gwerthuso a meithrin hyder ar draws y sefydliad.





GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

**Gweithio gyda'n gilydd
i greu Cymru iachach**

**Working together
for a healthier Wales**

PHW.Research@wales.nhs.uk
